# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 28 Mehefin 2018**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Neb yn bresennol

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Susan Davies
Y Cynghorydd Pearl Evans
Y Cynghorydd Godfrey Northam

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Neville Hughes. Ymddiheuriadau gan y Cyngr. Einir Williams, Gwilym Owen, Ann Williams, Dyfrig Jones a Linda Brown.

**2. Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru**

Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn gan Dr D Roberts ar gais Cyngor Gwynedd am enwebiad Safle Treftadaeth y Byd. Bydd y cais llawn yn cael ei gyflwyno yn gyntaf i DCMS ym mis Medi ac yna gobeithio ym mis Ionawr 2019 bydd yr enwebiad yn mynd ymlaen at Unesco. Diolchwyd i Dr Roberts am y cyflwyniad a penderfynwyd bod y Cyngor am ysgrifennu at Sioned Williams yng Nghyngor Gwynedd i ddatgan eu cefnogaeth tuag at y cais.

**3. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**4. Materion Brys**
**4.1** Llys Dafydd-adroddwyd bod cwynion gan gwmnïau ar y Stryd Fawr wedi eu derbyn ynglŷn a Pobty Pizza yn defnyddio Llys Dafydd. Penderfynwyd bydd rhaid cyfyngu'r defnydd ac hefyd adolygu'r ffi. Penderfynwyd na dim ond nos Wener neu dydd Sadwrn, bob yn ail penwythnos bydd y defnydd o hyn ymlaen. Y ffi am nos Wener fydd £100 a'r ffi am ddydd Sadwrn fydd £200, i'w adolygu ar ddiwedd y flwyddyn.
**4.2** Maes parcio Rachub- adroddwyd bod angen tocio'r gwrychoedd ar y safle cyn gynted a bo modd, gan eu bod yn cyfyngu'r lle parcio. Hefyd y Clerc i holi unwaith eto pryd fydd y maes parcio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor.

**5. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai 2018.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1 Cloc Gorffwysfan**-Y Clerc dal i chwilio am un addas am bris rhesymol.
**6.2 Cyfarfod gyda Adran Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd-** angen dyddiadau eto ar gyfer trefnu'r cyfarfod.
**6.3 Beavers Bethesda-**wedi plannu blodau o flaen yr arwydd 'Bethesda' ac mae nhw'n edrych yn wych.

**7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Roedd pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl brosiectau'r Bartneriaeth.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Canolfan Cefnfaes- adroddwyd yn cyfarfod blynyddol y ganolfan bod lluniau fel rhai Wil Reach a Wil Wandering ar wal yn siop Cwrw Ogwen. Penderfynwyd holi y Cyng. Dyfrig Jones a Dilwyn Llwyd am yr hawl i arddangos rhain (a'r pethau eraill sydd ar gael) yn rhywle cyhoeddus (fel y llyfrgell) fel eu bod ddim yn mynd yn anghof.

**9. Caeau chwarae**
Cafwyd adroddiad gan yr Is-bwyllgor sydd wedi ymweld a holl gaeau chwarae yr ardal. Adroddwyd bod yna le i 2 eitem newydd ar bob safle, ond oherwydd costau uchel yr offer, eu bod ond yn ystyried 1 eitem bob un. Ond hefyd o dan ystyriaeth roedd creu un cae chwarae mawr, newydd. Mae'r Is-bwyllgor dal i edrych ar wahanol offer a prisiau, ond mae Cyngor Gwynedd mewn egwyddor yn hapus i'r Cyngor fynd ymlaen.

**10. Ffurflen Flynyddol**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

**11.Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2018'
**11.1** E-bost Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol-templed ar gyfer cyhoeddi taliadau a wneir i'r aelodau fel y nodir yn Atodiad 4 o adroddiad blynyddol y Panel. Y Clerc i weithredu erbyn 30 Medi.
**11.2** E-bost gan Zurich-pris ar gyfer adnewyddu'r polisi. Y Cyngor wedi penderfynu derbyn y pris.
**11.3** E-bost gan Un Llais Cymru-Model Rheolau Sefydlog 2018-angen mabwysiadu'r rheolau. Y Clerc i fynd drwy'r ddogfen a llenwi'r bylchau.
**11.4** E-bost gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru-ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol- Y Clerc i lenwi ar ran y Cyngor, ac unigolion i'w lenwi hefyd.
**11.5** E-bost gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd-Gwynedd a Môn-ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol- penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
Dim ceisiadau

**<u>Ceisiadau</u>**

**C18/0459/13/LL**

| | |
|---|---|
| Bryn Celyn, 6 Ffordd Llanllechid, Rachub | Codi estyniad unllawr, dymchwel modurdy presennol, creu dau le parcio a chodi sied gardd<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**13. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Mehefin) | £271.50 |
| CThEM (Mehefin) | £67.80 |
| Londis-papurau(Mai) | £28.00 |
| E Goodall-ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |
| Dŵr Cymru-Llys Dafydd | £15.91 |
| Dŵr Cymru-Gorffwysfan | £304.92 |
| Cynnal a chadw meinciau cyhoeddus | £550.00 |